# Cydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion. Mae hyn yn cynnwys hybu cyfraniad pobl eraill o ran cefnogi unigolion, gan weithio gyda nhw i gyflawni canlyniadau a'u grymuso i adolygu effeithiolrwydd y cymorth maent yn ei roi.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun, eraill ac unigolion wrth gydweithio
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gytuno ar yr agweddau o ofal neu gymorth a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y trefniadau cydweithio
3. arwain ar y gwaith o ddarparu gwybodaeth i gefnogi eraill i gwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion
4. grymuso eraill i gael gafael ar adnoddau, yn ogystal â rhoi cefnogaeth a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu at ganlyniadau unigolion
5. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau, pryderon neu risgiau wrth gydweithio
6. hybu hawliau unigolion ac eraill i ofyn cwestiynau, gwneud penderfyniadau neu newid eu meddyliau
7. grymuso eraill i gymryd rhan yn y gofal neu'r cymorth y cytunwyd arno ar gyfer unigolion
8. rhoi cyfleoedd i unigolion ac eraill roi adborth ar sut mae'r trefniadau cydweithio yn cwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion
9. grymuso unigolion ac eraill i adolygu a diweddaru canlyniadau cydweithio a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon
10. cymryd cyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau cydweithio yn cael eu rhoi ar waith
11. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
2. sut mae datblygu diwylliant o gydweithio yn y gweithle
3. pwysigrwydd grymuso eraill mewn cyfleoedd gofal a chymorth
4. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
5. y mathau o wybodaeth, adnoddau, cymorth a datblygiad sgiliau sydd ar gael, a sut i'w darparu a'u defnyddio
6. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi cydweithio ag eraill
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
8. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd wrth weithio ag eraill i gefnogi unigolion
9. pwysigrwydd cytuno ar ganlyniadau gydag unigolion ac eraill
10. sut mae cefnogi eraill i gwrdd â chanlyniadau, dewisiadau ac anghenion unigolion
11. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
12. ffyrdd o gydnabod cyfraniadau cadarnhaol pobl eraill
13. agweddau ar berthnasoedd sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni canlyniadau
14. sut mae cydweithio ag unigolion ac eraill i adolygu a gwerthuso cynnydd, a pham fod hyn yn bwysig
15. sut mae ymateb i broblemau, gwrthdaro ac anghytundebau a allai godi wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gydweithio
17. hawliau unigolion ac eraill i ofyn cwestiynau, gwneud penderfyniadau neu newid eu meddyliau, a phwysigrwydd cefnogi hyn
18. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
19. theorïau sy'n berthnasol i gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth,

cynhwysiant a hawliau wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion

22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn

23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD416

Cydweithio ag eraill er mwyn cefnogi unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD416 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cydweithio, Cefnogi Unigolion, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |